OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2011 Rhif 1012 (Cy.151)

AMAETHYDDIAETH, CYMRU
ADNODDAU DŴR, CYMRU

Gorchymyn Dŵr (Atal Llygredd) (Cod Ymarfer Amaethyddol Da) (Cymru) 2011

Gwnaed - - - -	*29 Mawrth 2011*
Yn dod i rym - -	*19 Ebrill 2011*

Mae Gweinidogion Cymru, wrth arfer y pwerau a roddwyd gan adran 97(1) o Ddeddf Adnoddau Dŵr 1991(**1**) ac a freiniwyd bellach ynddynt hwy(**2**), yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn.

Mae Gweinidogion Cymru wedi ymgynghori ag Asiantaeth yr Amgylchedd yn unol ag adran 97(3)(**3**) o'r Ddeddf honno.

Enwi, cychwyn, cymhwyso a dehongli

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Dŵr (Atal Llygredd) (Cod Ymarfer Amaethyddol Da) (Cymru) 2011.

(2) Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 19 Ebrill 2011.

(3) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru.

(4) Yn y Gorchymyn hwn, ystyr "y Cod Ymarfer" yw'r Cod Ymarfer Amaethyddol Da i warchod ansawdd dŵr, pridd ac aer a ddyroddwyd gan Weinidogion Cymru ar 30 Mawrth 2011(**4**).

Cymeradwyo'r Cod Ymarfer

2. Mae Gweinidogion Cymru yn cymeradwyo'r Cod Ymarfer i'r graddau y dyroddwyd y cod ymarfer at ddibenion—

(**1**) 1991 p.57

(**2**) Trosglwyddodd Erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999, ac Atodlen 1 iddo, (O.S. 1999/672) swyddogaethau "the Ministers", o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Trosglwyddwyd y swyddogaethau hyn o Gynulliad Cenedlaethol Cymru i Weinidogion Cymru o dan adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi (p.32).

(**3**) Mae adran 97(3) wedi ei diwygio gan baragraff 128 o Atodlen 22 i Ddeddf yr Amgylchedd 1995 (p.25).

(**4**) Mae'r Cod ar gael yn electronig ar www.cymru.gov.uk neu ar ffurf copi caled gan Yr Adran Materion Gwledig, Llywodraeth Cynulliad Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.